**Polisi Preifatrwydd Ysgolion**

Dyddiad creu: Mawrth 2023

Dyddiad adolygwyd: 10.10.24

Fersiwn: 2

---

**Yr hyn y mae'r Ysgol neu'r Darparwr Blynyddoedd Cynnar, Awdurdod Lleol Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r Wybodaeth Addysgol y maen nhw'n ei dal ar Blant a Phobl Ifanc**

Er mwyn bodloni gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Du (GDPR), mae disgwyl i ysgolion gyhoeddi Hysbysiad Preifatrwydd i blant a phobl ifanc a/neu rieni a gwarchodwyr yn crynhoi'r wybodaeth sy'n cael ei dal ar gofnod am blant a phobl ifanc, pam y'i cedwir, a'r trydydd partïon y gallai fod yn ei derbyn.

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn rhoi gwybodaeth am sut y mae'r Ysgol, Cyngor Caerdydd (ALl) a Llywodraeth Cymru yn casglu ac yn prosesu gwybodaeth bersonol am blant neu bobl ifanc, a gwybodaeth am eu perfformiad.

**Casglu gwybodaeth bersonol**

Mae'r ysgol yn casglu gwybodaeth am blant a phobl ifanc a'u rhieni neu eu gwarchodwyr cyfreithiol pan fydd plant a phobl ifanc yn cofrestru yn yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn casglu gwybodaeth ar adegau allweddol eraill yn ystod yn flwyddyn ysgol ac mae'n bosib y bydd yn derbyn gwybodaeth gan ysgolion eraill pan fydd plant a phobl ifanc yn trosglwyddo.

Mae'r Ysgol yn prosesu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu i weinyddu'r addysg y mae'n ei darparu i blant a phobl ifanc. Er enghraifft:

- darpariaeth gwasanaethau addysgol i unigolion;
- monitro ac adrodd ar gynnydd addysgol disgyblion/plant;
- darparu lles, gofal bugeiliol a gwasanaethau iechyd;
- rhoi cefnogaeth a chanllawiau i blant a phobl ifanc, eu rhieni a gwarcheidwaid cyfreithlon;
- trefnu digwyddiadau a thripiau addysgol;
- cynllunio a rheoli'r ysgol.

**Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol (ALl)**

Mae **Llywodraeth** Cymru yn derbyn gwybodaeth ar weithlu'r ysgol a disgyblion yn uniongyrchol gan ysgolion fel arfer fel rhan o gasglu data statudol sy'n cynnwys y canlynol:

- Casglu data ôl-16
- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- Casglu lefelau disgyblion sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol

- Casglu data cenedlaethol (CDC)
- Casglu gwybodaeth am bresenoldeb
- Casglu data am Brofion Cenedlaethol Cymru (PCC)
- Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu'r Ysgol (CBGY)

Yn ogystal â'r data sy'n cael ei gasglu fel rhan o CYBLD, mae Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol hefyd yn derbyn gwybodaeth am asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, canlyniadau arholiadau cyhoeddus a data presenoldeb ar lefel disgyblion unigol sy'n dod gan Ysgolion a/neu Gyrff Gwobrwyo (e.e. CBAC).

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth bersonol hon ar gyfer ymchwil (y'i cynhelir yn y fath fodd fel na ellir adnabod plant a phobl ifanc unigol) ac at ddibenion ystadegol, i lywio, dylanwadu ar bolisi addysgol a'i wella, ac i fonitro perfformiad y gwasanaeth addysg yn gyfan. Ceir enghreifftiau o'r math o ystadegau a gynhyrchir yma http://www.cymru.gov.uk/ystadegau Ceir rhagor o wybodaeth am ddefnydd Llywodraeth Cymru o ddata personol o fewn Polisi Preifatrwydd Llywodraeth Cymru sydd ar gael https://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datamanagementims/?lang=cy

Mae'r ALl hefyd yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a gesglir i wneud ymchwil. Mae'n defnyddio canlyniadau'r ymchwil hwn i wneud penderfyniadau ar bolisi ac ariannu ysgolion, i gyfrifo perfformiad ysgolion a'u helpu i osod targedau. Gwneir yr ymchwil yn y fath fodd sy'n sicrhau na ellir adnabod yr un plentyn na pherson ifanc.

**Gwybodaeth bersonol a gedwir**

**Dyma rai o'r categorïau am wybodaeth disgyblion rydym yn eu casglu, yn eu dal neu'n eu rhannu:**

- gwybodaeth bersonol (fel enw, rhif disgybl unigryw a chyfeiriad)
- nodweddion (fel ethnigrwydd, iaith, cenedl, gwlad geni a chymhwysedd cinio ysgol am ddim)
- gwybodaeth presenoldeb (fel y sesiynau a fynychir, nifer yr absenoldebau a'r rhesymau dros absenoldebau)
- gwybodaeth ymddygiadol (fel eithriadau ac unrhyw ddarpariaeth arall a roddir mewn lle)
- diogelu gwybodaeth (fel gorchmynion llys a chynhwysiad proffesiynol)
- anghenion addysgol arbennig (gan gynnwys anghenion a rheng)
- materion meddygol a gweinyddiaeth (fel gwybodaeth meddygon, iechyd plant, iechyd dannedd, alergeddau, meddyginiaethau ag anghenion dietegol)
- manylion cyswllt, dewisiadau cyswllt, dyddiad geni, dogfennau adnabyddiaeth
- perfformiad mewn asesiadau mewnol a chenedlaethol ac arholiadau, gwybodaeth asesu
- cofnodion disgybl a chwricwlwm
- manylion unrhyw gyflyrau meddygol, gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol
- manylion unrhyw gefnogaeth a dderbynnir, gan gynnwys pecynnau gofal, cynlluniau a darparwyr cymorth
- ffotograffau
- Delweddau teledu cylch cyfyng a gesglir yn yr ysgol

**Mae'r ysgol yn defnyddio'r wefan My Concern ar gyfer adrodd am:**

Digwyddiadau Amddiffyn Plant, Cam 5 ar y protocolau ymddygiad, achosion o fwlio ac ymladd ar safle'r ysgol.

Mae'r ALl yn casglu data ynghylch achosion o fwlio yn yr ysgol drwy gasglu o My Concern.

Bydd yr holl Gofnodion Amddiffyn Plant yn cael eu trosglwyddo i ysgol newydd. Mae hyn yn unol â Diogelu Cymru.

**Mae'r Ysgol yn defnyddio'r darparwr map darpariaeth EDUKEY i gofnodi;**

Proffiliau disgyblion, cofnodion CDU o gyfarfodydd ac unrhyw nodiadau gan asiantaethau eraill.

**Mae'r Ysgol yn defnyddio SIMS (Capita) i gofnodi gwybodaeth unigolion yr ysgol e.e.** cofrestru disgyblion.

**Mae'r Ysgol yn defnyddio GOOGLE Education gan gynnwys Google Forms i gofnodi gwybodaeth trwy blatfform HWB.**

**Sefydliadau a fydd efallai'n rhannu gwybodaeth bersonol**

Gellir rhannu gwybodaeth a gedwir gan yr ysgol, darparwyr y blynyddoedd cynnar, yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru ar blant a phobl ifanc, eu rhieni neu warchodwyr cyfreithlon gyda sefydliadau eraill pan fydd y gyfraith yn caniatáu, a chyhyd â bod pob cam priodol yn cael ei gymryd i gadw'r wybodaeth yn ddiogel, er enghraifft:

- cyrff addysgol a hyfforddi eraill, gan gynnwys ysgolion, pan fydd plant a phobl ifanc yn gwneud cais am gyrsiau neu hyfforddiant, pan fyddant yn trosglwyddo ysgol neu'n chwilio am arweiniad ar gyfleoedd;
- cyrff sy'n cael cytundebau i wneud ymchwil i Lywodraeth Cymru, yr ALl ac ysgolion/ darparwyr y blynyddoedd cynnar gyda chamau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y wybodaeth yn ddiogel;
- llywodraeth ganol a lleol ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau addysgol;
- gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau iechyd a lles eraill lle mae angen rhannu gwybodaeth i warchod a chefnogi plant a phobl ifanc unigol.
- darparwyr Systemau Gwybodaeth Rheoli (MIS) er mwyn sicrhau bod swyddogaeth a chywirdeb systemau'n cael eu cynnal;
- Cyflenwyr cymeradwy systemau 'di-arian parod' y Cyngor a/neu'r ysgolion i sicrhau bod yr holl ddisgyblion, rhieni a gwarcheidwaid â chyfrifoldeb rhieni, a staff yr ysgol yn gallu eu defnyddio yn briodol;
- y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De i gefnogi dadansoddiad ystadegol rhanbarthol fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.
- cyrff rheoleiddio amrywiol, fel ombwdsmyn ac awdurdodau archwilio, lle mae'n ofynnol o dan y gyfraith i wybodaeth gael ei phasio ymlaen fel eu bod yn gallu gwneud eu gwaith;
- y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) er mwyn gwella ansawdd ystadegau mudo a phoblogaeth

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau penodol dan y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gan gynnwys hawl cyffredinol i gael mynediad at ddata personol a gedwir amdanynt gan unrhyw "reolwr data". Mae'r gyfraith yn caniatáu bod gan blant,

erbyn iddyn nhw gyrraedd 13 oed ddigon o aeddfedrwydd i ddeall eu hawliau ac i wneud cais am hawl unigol eu hunain os ydynt yn dymuno. Byddai disgwyl i riant wneud cais ar ran plentyn sy'n iau. Os ydych am weld eich data personol, neu ddata eich plentyn, ysgrifennwch at y sefydliad perthnasol.

**Gwybodaeth arall**

Mae diogelwch gwybodaeth o'r pwys mwyaf i'r ALl, yr ysgol a Llywodraeth Cymru ac mae nifer o weithdrefnau ganddynt i leihau'r posibilrwydd o gyfaddawdu ar ddiogelwch data. Bydd yr ALl, yr ysgol a Llywodraeth Cymru yn gwneud eu gorau i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n gywir bob amser a'i phrosesu yn unol â'n gofynion cyfreithiol.

**Eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Du (GDPR)**

**Mae'r cyfreithiau Diogelu Data yn rhoi hawliau penodol i unigolion o ran y wybodaeth bersonol a gedwir amdanynt gan unrhyw sefydliad.** Mae'r hawliau yma'n cynnwys:

- yr hawl i ofyn am, a derbyn copïau o'r wybodaeth bersonol a gedwir amdanoch, er bod modd cadw peth gwybodaeth amdanoch yn ôl am resymau cyfreithlon;
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i atal prosesu gwybodaeth bersonol os byddai gwneud hynny'n achosi niwed neu loes;
- yr hawl i ofyn am gael cywiro gwybodaeth anghywir;
- yr hawl i ofyn am beidio prosesu gwybodaeth

Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn goruchwylio'r Ddeddf Diogelu Data, i asesu pa un ai ydyw prosesu'r wybodaeth bersonol yn debygol o gydymffurfio â darpariaethau ein cyfrifoldebau deddfwriaethol.

**Gofyn am ragor o wybodaeth**

Rydym yn cysylltu â Thîm Llywodraeth Gwybodaeth Cyngor Caerdydd fel y Swyddog Diogelu Data wedi'i Gontractio. Am ragor o wybodaeth am y wybodaeth bersonol a gesglir ac at ba ddefnydd, os oes gennych bryderon am gywirdeb gwybodaeth bersonol, neu os ydych am ymarfer eich hawliau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, dylech gysylltu â:

- Richard Carbis - Pennaeth
- Swyddog Diogelu Data Cyngor Caerdydd yn Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 4UW, neu e-bostiwch ysgolionllywodraethugwybodaeth@caerdydd.gov.uk
- Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ; e-bost Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru
- Llinell gymorth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth 0330 414 6421 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
- mae gwybodaeth hefyd ar gael o www.ico.gov.uk

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**

| | |
|---|---|
| Dyddiad Adolygu: | Hydref 25 |